
# Dogfen Ymgynghoriad Ffurfiol
# Cynnig i Gynyddu Capasiti
# Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220



**Fersiwn Plant a Phobl Ifanc**

Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council




## Pwy ydym ni?

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gyfrifol am ysgolion yn Sir Ddinbych.

Mae ein tîm yn gweithio i'r cyngor i gefnogi ysgolion.

Rydym eisiau sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael y cyfle gorau i ddysgu yn yr adeiladau ysgol gorau.

## Beth sy'n digwydd?

Rydym yn gweithio gyda'r Llywodraethwyr ysgol, sy'n rhedeg yr ysgol, i greu cynllun i newid yr ysgol.

Mi fyddem ni'n hoffi clywed dy farn am y cynllun yma.



## Beth yw'r cynllun?

Hoffem allu cynnig mwy o leoedd yn dy ysgol fel y gall disgyblion eraill fynychu.

I wneud hyn rydym eisiau dod â'r holl ddisgyblion yn Ysgol Plas Brondyffryn at ei gilydd mewn un adeilad newydd yn Ninbych.

## Beth fydd yn newid?

Os bydd y newid yn cael ei gymeradwyo: -

Bydd disgyblion Ysgol Plas Brondyffryn i gyd yn yr un lleoliad mewn adeilad ysgol newydd sbon.

Bydd mwy o le yn yr adeilad newydd felly bydd mwy o ddisgyblion yn gallu mynychu'r ysgol.

## Pam ydym ni'n gofyn am dy farn?

Mae'n bwysig dy fod ti'n dweud dy farn ac rydym eisiau gofyn i ti am dy farn am y cynllun.

Byddwn yn dod i'r ysgol ac yn cyfarfod efo'r cyngor ysgol.

Byddem hefyd yn hoffi petaet ti'n gallu ateb y cwestiynau ar ddiwedd y ddogfen hon a'u hanfon yn ôl atom.





## Pam ydym ni'n meddwl bod angen newid pethau?

Ein nod yw rhoi'r cyfle gorau i blant ddysgu a darparu adeiladau ysgol ddiogel a llawn hwyl. Rydym yn meddwl y byddai creu ysgol newydd sy'n dod â phawb at ei gilydd yn lle gwell i ddysgu.

Bydd gan adeilad newydd well ystafelloedd dosbarth a gwell mannau ar gyfer celf, dylunio a thechnoleg a thechnoleg bwyd.

## Pa mor hir fydd hyn yn ei gymryd?

| | |
|---|---|
| Cael barn pobl | Mai/Mehefin 2022 |
| Rhoi gwybod i bawb beth ydym ni wedi'i ddarganfod | Medi 2022 |
| Y Cyngor yn penderfynu os bydd y newid yn digwydd | Hydref 2022 |
| Adeiladu'r ysgol newydd | Chwefror 2023 - Awst 2024 |
| Adeilad ysgol newydd yn agor | Medi 2024 |




# Eisiau gwybod mwy?

Os wyt ti eisiau dod o hyd i fwy o wybodaeth, mae yna ddogfen hirach ar y rhyngrwyd ar gyfer rhieni, athrawon ac aelodau o gymuned yr ysgol.

Mae'r ddogfen hirach ar ein gwefan:

https://countyconversation.denbighshire.gov.uk/projectcy/680

I ofyn am gopi caled o unrhyw un o'r dogfennau ymgynghori anfona e-bost at: moderneiddioaddysg@sirddinbych.gov.uk

**Beth wyt ti'n feddwl?**

Os wyt ti'n cael mynediad at y ddogfen hon ar-lein yna clicia

https://countyconversation.denbighshire.gov.uk/projectcy/680 i gwblhau'r arolwg ar-lein

Mi gei di ysgrifennu unrhyw beth wyt ti eisiau ddweud wrthym a'i anfon yn y post atom:-

Tîm Rhaglen Moderneiddio Addysg

Cyngor Sir Ddinbych

Blwch Post 62

Rhuthun

LL15 9AZ

Os ydi hi'n well gen ti anfon e-bost, anfon dy farn at: moderneiddioaddysg@sirddinbych.gov.uk

**Cofia ddweud wrthym ni:-**

- Sut wyt ti'n teimlo am gael holl ddisgyblion Ysgol Plas Brondyffryn i gyd yn yr un adeilad?

- Sut wyt ti'n teimlo am gael adeilad ysgol newydd?

- Oes yna unrhyw beth arall fyddet ti'n hoffi ei weld yn digwydd yn hytrach na beth sydd yn ein cynllun?

**Anfona dy sylwadau atom erbyn Dydd Llun 27 Mehefin 2022**

**Yn anffodus, ni allwn dderbyn unrhyw beth sy'n cael ei anfon atom ar ôl y dyddiad hwn.**